**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

—

**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Manon Antoniazzi
Prif Weithredwr a Chlerc
Senedd Cymru / Welsh Parliament

Annwyl Manon,

11 Tachwedd 2024

## Cais am wybodaeth fel rhan o'r ymchwiliad i'r bwlch cyflogaeth anabledd

Ar hyn o bryd rydym yn cymryd tystiolaeth fel rhan o'n hymchwiliad i'r bwlch cyflogaeth anabledd. Rydym wedi cael tystiolaeth bwerus sy'n ein hatgoffa bod gennym lawer mwy i'w wneud i newid agweddau a chwalu'r rhwystrau sy'n gwneud bywyd yn anos i bobl anabl.

Fel senedd a etholir gan y bobl, credwn ein bod yn bwysig i'r Senedd anelu at osod esiampl gadarnhaol i eraill. Felly, byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth am fwlch cyflogaeth anabledd Comisiwn y Senedd. A allech chi ddarparu ffigurau ar nifer y bobl anabl a gyflogir gan Gomisiwn y Senedd ac amlinelliad o sut y mae'r Comisiwn yn sicrhau bod ei arferion a'i weithdrefnau recriwtio yn deg ac yn hygyrch yn enwedig o ran anabledd. A oes rheswm pam mae Comisiwn y Senedd wedi penderfynu peidio â chael statws Lefel 3 Arweinydd Hyderus o ran Anabledd (mae Lefelau 1 a 2 yn hunan-ardystio felly'n llai ystyrlon efallai)?

Hoffem ddiolch o flaen llaw am ystyried ein cais a byddem yn croesawu ymateb erbyn diwedd y diwrnod gwaith ar 22 Tachwedd os yw'n bosibl o gwbl fel y gall yr Aelodau ystyried cyn i ni ddod â'r gwaith casglu i ben gyda sesiwn dystiolaeth weinidogol ar y 25ain.

Yn gywir,

Jenny Rathbone

Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Senedd Cymru / Welsh Parliament